# Dulliau enghreifftiol o drosglwyddo neu ddatgomisiynu asedau rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol

**Mae’r prosiect hwn yn cyflwyno gwybodaeth ymarferol ar sut i drosglwyddo neu ddatgomisiynu asedau rheoli perygl llifogydd ac erydu arfordirol (FCERM).**

## Dogfennau

- Adroddiad: Dulliau ymarferol o drosglwyddo neu ddatgomisiynu asedau FCERM (Saesneg yn unig)

## Crynodeb

Mae'r adroddiad wedi'i anelu at reolwyr asedau mewn awdurdodau rheoli risg (RMAs) sydd eisoes wedi penderfynu 'gwneud rhywbeth gwahanol' gyda'u hasedau FCERM. Gallai hyn gynnwys morglawdd, arglawdd, neu strwythur rheoli lefel dŵr. Nid yw'r adroddiad yn ymdrin â sut i benderfynu 'gwneud rhywbeth gwahanol' gydag ased FCERM - mae'n dechrau pan fo'r penderfyniad hwn eisoes wedi'i wneud.

Bydd y canfyddiadau hefyd o ddiddordeb i dirfeddianwyr a rhanddeiliaid eraill.

## Dull

Cyflawnwyd y prosiect mewn 3 cham.

**Cam 1: casglu gwybodaeth**

Roedd hyn yn cynnwys y canlynol:

- adolygu gwybodaeth bresennol trwy chwiliad llenyddiaeth helaeth a thrafodaethau gydag ymarferwyr mewn gweithdai a chyfweliadau
- nodi'r materion ymarferol o ran datgomisiynu neu drosglwyddo asedau
- datblygu fframwaith 3 cham rhagarweiniol ar gyfer trosglwyddo a datgomisiynu

**Cam 2: nodi a chasglu arfer da**

Roedd hyn yn cynnwys y canlynol:

- datblygu'r fframwaith 3 cham ar gyfer trosglwyddo a datgomisiynu
- profi’r fframwaith yn ôl-weithredol ar 3 safle lle’r oedd trosglwyddo asedau neu ddatgomisiynu eisoes wedi digwydd neu ar y gweill

- datblygu 5 enghraifft o astudiaethau achos

**Cam 3: adroddiad**

Mae'r adroddiad yn nodi'r broses gyffredinol a manylion y fframwaith 3 cham o asesu cychwynnol, asesu manwl, a gweithredu. Rhoddir enghreifftiau o drosglwyddo a datgomisiynu asedau mewn 5 astudiaeth achos fanwl, gan gynnwys strwythurau amddiffyn yr arfordir, gatiau melinau mewn melinau dŵr, gorsaf bwmpio a chored gorsaf fedryddu. Mae'r astudiaethau achos yn amlygu dulliau a weithiodd yn dda, y prif heriau dan sylw, a'r gwersi a ddysgwyd.

# Canfyddiadau

Mae’r adroddiad:

- yn pwysleisio pwysigrwydd ymgysylltu, a hwnnw wedi’i gynllunio’n dda, ac yn trafod sut mae gwneud hynny
- yn nodi'n glir y fframwaith 3 cham y gellir ei ddefnyddio ar gyfer pob prosiect
- yn trafod trosglwyddo a datgomisiynu o dan 5 pennawd, sef:
    - fframwaith cyfreithiol a rheoleiddiol
    - gwybodaeth am asedau
    - amgylchedd a chynaliadwyedd
    - cyllido
    - ymgysylltu â rhanddeiliaid
- yn dangos pwysigrwydd cynllunio trylwyr
- yn amlygu sut y dylid adolygu’r penderfyniad i drosglwyddo neu ddatgomisiynu yn rheolaidd gan ddefnyddio gwybodaeth newydd

# Gwybodaeth am y Prosiect

Rheolwr y prosiect: Juliet de Little, Zora van Leeuwen, Sarah Twohig

Comisiynwyd y prosiect hwn gan Gyfarwyddiaeth FCERM Asiantaeth yr Amgylchedd, fel rhan o’r Cyd-raglen Ymchwil a Datblygu Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol.

## Metadata’r Prosiect

**Categori:** Rheoli asedau am oes

**Pynciau:**

- Cynnal a chadw asedau
- Monitro asedau
- Perfformiad asedau
- Optimeiddio system asedau
- Dirywiad
- Seilwaith gwydn

- Costau oes gyfan

**Cod y prosiect** SC140004

**Dyddiad cychwyn:**01/10/2014

**Dyddiad cwblhau:** 30/09/2019